

CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL



Cofnodion Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo Zoom nos Lun 24 o Ionawr 2022 am 7:00pm.

- YN BRESENNOL:** Cynghorydd Heather Williams (Maer),
Cynghorwyr Menna Jones, Jabez Oakes, Ian Lewney, Stephen Beach,
Jim Bryan, Christine Ellis, Gavin Harris, Robert Owen-Ellis, Ethan Jones,
Anne Roberts, Ifan Wyn a Mike van der Eijk.
Cynghorwyr Sir Bobby Feeley ac Emrys Wynne.
- YN BRESENNOL:** Siân Clark – Clerc Tref Rhuthun
Kate Harcus – Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr yr Hen Lys
Marian Rees – Cyfieithydd

170. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Ymddiheuriadau gan Gynghorydd Rachel Lewington a Chynghorydd Sir Huw Hilditch-Roberts

171. DATGAN BUDDIANNAU

- Datganodd y Cynghorydd Gavin Harris fuddiant yn eitem 15 ar yr agenda (*cofnod 184*) fel perchennog busnes lleol.
- Datganodd y Cynghorwyr Anne Roberts, Heather Williams a Menna Jones fuddiant yn eitem 16 ar yr agenda (*cofnod 186*) fel aelodau o Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch
- Datganodd y Cynghorydd Sir Emrys Wynne fuddiant yn eitem 11 ar yr agenda (*cofnod 180*) fel Llywodraethwr Ysgol Brynhyfryd.

172. ADRODDIAD Y MAER

Nodwyd yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd gyda'r agenda, a oedd yn amlinellu gweithgareddau a digwyddiadau'r Maer ers cyfarfod blaenorol y Cyngor Tref ym mis Rhagfyr 2021. Yn ogystal, dywedodd y Maer wrth y Cynghorwyr Tref bod dyddiadau plannu'r coed i'w cadarnhau ond y byddant yn cael eu hysbysu i'r Aelodau.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys Adroddiad y Maer.

173. ADRODDIADAU'R AELODAU

Trafododd yr Aelodau adroddiadau'r Aelodau fel y'u dosbarthwyd gyda'r agenda.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys adroddiadau'r Aelodau.

174. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Nodwyd adroddiad Cynghorwyr Sir Rhuthun fel y'i dosbarthwyd.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys adroddiad Cynghorwyr Sir Rhuthun.

175. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL

PENDERFYNWYD: derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 o Ragfyr 2021 fel cofnod cywir.

176. MATERION YN CODI

Cofnod 164 – Cais am Roddion: Yr Urdd. Yn dilyn cais gan yr Urdd i aildrefnu dyddiad gwreiddiol y cyfarfod, cynhelir cyfarfod rhwng y Clerc a'r Urdd ddechrau Chwefror i egluro'r trefniadau noddi ac i ganfod sefyllfa ariannol Eisteddfod yr Urdd 2022 cyn i'r Cyngor Tref ystyried ymhellach.

177. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 10 o Ionawr 2022.*

178. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATLBYGU

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 10 o Ionawr 2022.*

179. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS

Rhododd yr Aelodau ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 o Ionawr 2022.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys a gynhaliwyd ar 11 o Ionawr 2022.*

180. DIWEDDARIAD FELODROM ARFAETHEDIG RHUTHUN

Derbyniodd yr Aelodau ddiweddariad llafar ar Felodrom arfaethedig Rhuthun gan y Cyng Gavin Harris. Yn dilyn penodiad Matt Cosgrove yn Bennaeth Gweithrediadau Gemau'r Gymanwlad Cymru, Anne Adams-King, Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr fyddai'r cyswllt arweiniol o fewn Beicio Cymru ar gyfer y felodrom arfaethedig. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Prif Weithredwr, yr Aelod Arweiniol dros Gyllid a Phennaeth Cyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych gyda chynrychiolwyr y Cyngor Tref i roi diweddariad ar y prosiect. Mewn egwyddor roedd Chwaraeon Cymru wedi cytuno ar gyllid o £1.6m yn arwain at y cam dylunio a datblygu, a fyddai angen ei warantu gan y partneriaid. Pwysleisiwyd y byddai ymgysylltu ac ymgynghori yn rhan anatod o'r broses camau nesaf.

PENDERFYNWYD: *nodwyd y diweddariad llafar*

181. CYFYNGIADAU AROS ARFAETHEDIG AR A525 Ffordd LLANFAIR AC ERW GOCH.

Bu i'r Aelodau ystyried cynigion yn ymwneud â'r A525 Ffordd Llanfair ac Erw Goch sef:

- (i) Dim aros ar unrhyw adeg ar yr A525 Ffordd Llanfair ac ar Erw Goch
- (ii) Dim aros rhwng 8.00a.m a 6.00p.m ar ran lai o'r A525 Ffordd Llanfair, Rhuthun.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd bod y cynigion cyfyngiad aros yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu ac i ymateb yn ffurfiol i Gyngor Sir Ddinbych ar ran y Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD: *bod y cynigion ar gyfer cyfyngiadau aros ar yr A545 Ffordd Llanfair ac Erw Goch yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu.*

182. GRWP PARTNERIAETH LLIFOGYDD RHUTHUN

Rhoddyd diweddariad llafar i'r Aelodau ar gyfarfod cychwynnol Grŵp Partneriaeth Llifogydd Rhuthun a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2022 ac a oedd yn cynnwys trigolion lleol, swyddogion o gyrff statudol a Chyngor Tref Rhuthun. Roedd yn nodedig nad oedd cyfran sylweddol o drigolion yn y tair ardal rhybuddion llifogydd wedi cael eu cynnwys gan wasanaeth rhybuddion llifogydd CNC. Byddid yn chwilio am wardeniaid llifogydd gwirfoddol fel rhan o ddatblygu Cynlluniau Llifogydd Cymunedol. Roedd cyfarfod nesaf y Grŵp wedi'i drefnu ar gyfer 14 Chwefror 2022. Mynegodd yr aelodau bryderon nad oedd yr holl drigolion wedi ymrwmo i

wasanaeth rhybuddion llifogydd CNC a gofynnwyd am sicrwydd y byddai'n cysylltu'n briodol â phreswylwyr a'u hysbysu am y system (ee anfon post i gartrefi, codi ymwybyddiaeth drwy gyfryngau cymdeithasol, a chyfleoedd 'galw heibio' mewn lleoliadau fel Yr Hen Lys).

PENDERFYNWYD: *nodwyd y diweddariad llafar a byddai pryderon Cyngor Tref Rhuthun ynghylch y nifer isel o breswylwyr oedd wedi ymuno â system rhybuddion llifogydd CNC yn cael eu cyfleu i'r swyddogion priodol.*

183. CRONFA SEILWAITH DIGWYDDIADAU CYMUNEDOL: DIGWYDDIADAU SGWÂR RHUTHUN, GWELLIANNAU TRYDANOL

Cafwyd cadarnhad o'r cais llwyddiannus i'r Gronfa Seilwaith Digwyddiadau. Byddai £1,284 yn cael ei dderbyn i gefnogi uwchraddio'r cyflenwad trydan i Gloc y Dref a'r Hen Lys i gefnogi digwyddiadau ar Sgwâr San Pedr.

PENDERFYNWYD: *nodwyd a chroesawyd cadarnhad o'r £1,284.*

184. HYRWYDDO A MARCHNATA: RHUTHUN

Nododd yr Aelodau heriau presennol o fewn y gymuned fusnes leol o ganlyniad i'r pandemig. Adroddwyd y byddai busnesau lleol yn cyfarfod y noson ganlynol i drafod y sefyllfa ac i ystyried y posibilrwydd o atgyfodi 'Bro Rhuthun' i, yn rhannol, annog mwy o ymwelwyr i'r dref trwy ymgyrch farchnata penodol. Mewn trafodaeth, gwerthfawrogodd yr Aelodau frys y sefyllfa ac awgrymwyd ymchwilio i enghreifftiau o drefi bywiog, arloesol, y posibilrwydd o erthyglau/hysbysebion am Rhuthun mewn cyhoeddiadau fel y Liverpool Echo yn ogystal â sicrhau bod cyngor a chefnogaeth yn cael ei ddarparu gan dim twristiaeth a marchnata Cyngor Sir Ddinbych. O ystyried hanes 'Bro Rhuthun' awgrymwyd bod potensial i'r gymuned fusnes ailgysylltu â'i huchelgeisiau a'i hamcanion yn weddol gyflym. Roedd yr Arddangosfa Manwerthu yn Yr Hen Lys, a oedd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a'r arwyddion cerdded yn y dref gamau buddiol gan y Cyngor Tref i gefnogi'r economi ymwelwyr. Byddai'r eitem agenda gosod praesept yn ystyried dyraniad cyllideb ar gyfer cefnogi marchnata'r dref.

PENDERFYNWYD: *ymgysylltu â'r gymuned fusnes leol, ymchwilio i'r awgrymiadau uchod ac ystyried dyraniad cyllideb ar gyfer cefnogi marchnata'r tref.*

185. ETHOL CADEIRYDD

Gan fod y Maer a'r Dirprwy Faer wedi datgan diddordeb yn yr eitem canlynol, cynigiwyd ac eiliwyd y Cyng Gavin Harris i Gadeirio'r eitem nesaf yn unig.

PENDERFYNWYD: *ethol y Cyng Gavin Harris yn Gadeirydd ar gyfer yr eitem nesaf yn unig.*

186. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL: CYMDEITHAS DDINESIG RHUTHUN A'R CYLCH

Rhoddodd y Cyngor Tref ystyriaeth i gais am gymorth ariannol o £1,000 oddi wrth Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch mewn perthynas â'r Craen Rheilffordd. Nodwyd bod arian grant o ffynonellau eraill hefyd wedi'i ymrwymo i adfer y Craen Rheilffordd, a oedd yn gyswllt pwysig â hanes Rhuthun.

PENDERFYNWYD: *cytuno ar Grant Cymorth Ariannol o £1,000 i Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch mewn perthynas â Chraen y Rheilffordd.*

187. ADNEWYDDU YSWIRIANT Y CYNGOR TREF

Rhoddwyd ystyriaeth gan y Cynghorwyr Tref i adnewyddu yswiriant y Cyngor Tref gyda Zurich am y drydedd flwyddyn o gytundeb pum mlynedd ar gost o £4,393.65.

PENDERFYNWYD: *cytuno i adnewyddu yswiriant gyda Zurich ar gost o £4,393.65.*

188. ARCHWILIAD MEWNOL 2020/21

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i benodiad JDH Business Services Ltd i gynnal archwiliad mewnol 2020/21 am ffi o £340.20 ynghyd â TAW.

PENDERFYNWYD: Penodi JDH Business Services Ltd i gynnal archwiliad mewnol 2020/21 am ffi o £340.20 ynghyd â TAW.

189. CYLLID AM Y FLWYDDYN ARIANNOL 2022-23

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod 2022/23. I gefnogi trafodaeth, roedd y Clerc wedi dosbarthu gwybodaeth oedd yn amlinellu opsiynau cyllidebol yn seiliedig ar gynnydd praesept o: 0%, 2%, 2.5% a 2.9%. Cynigiwyd ac eiliwyd cynnydd o 2.5% a gofynnwyd am bleidlais a'i nodi.

PENDERFYNWYD: cytuno ar swm y praesept ar gyfer Cyngor Tref Rhuthun ar gyfer 2022-23 sef £160,132, sy'n cyfateb i £63.52 ar gyfer eiddo Band D yn seiliedig ar Sylfaen Treth y Cyngor o 2,521 o anheddau.

190. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyniodd yr aelodau'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2021.

PENDERFYNWYD: derbyn y datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2021.

191. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

OB	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu – Rhagfyr 2021	*	£180.00
OB	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres	*	
		• Rhagfyr 2021		£240.00
		• Ionawr 2022		£240.00
OB	HCI Data	Adnewyddu enwau parth am ddwy flynedd	*	
		• ruthintowncouncil.gov.uk		£85.00
		• cyngortrefrhuthun.gov.uk		£85.00
OB	Cambrian Woodland Services	Cyflenwi, gosod, tynnu a chael gwared ar Goedden Nadolig 25 troedfedd	*	£630.00
OB	Llanfwrog CIC	Gwananaeth torri glaswellt Tachwedd 2021		£184.92
OB	Canda Copying	Costau copio (30/09/21 to 29/12/21)	*	£29.23
OB	Canda Copying	Rhent copiwr (1/01/22 to 31/03/22)	*	£41.90
OB	Cyng Heather Williams	Ad-daliad tusw blodau ar achlysur penblwydd 100 oed		£20.00
OB	John Pugh FRICS	Gwasanaeth proffesiynol re: y gofeb ryfel	*	£3,850.00
OB	Siân Clark	Ad-daliad am baneri Nadolig	*	£90.10

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy)

O gyfrif Cyngor Tref Rhuthun – Yr Hen Lys

OB	Viking	Stôl fach	*	£41.39
OB	Cyngor Sir Ddinbych	Trethi Annomestig (2il o 4 taliad) o'r cyfnod 01.04.19 i 31.03.22		£2,048.00
OB	Kate Harcus	Ad-daliad am pryniant eitemau diogelwch (cyrn aer ac arwyddion)	*	£80.26
OB	Kate Harcus	Ad-daliad am pryniant arwyddion diogelwch	*	£48.23
OB	Kate Harcus	Ad-daliad am eitemau amrywiol i'r Hen Lys gan gynnwys nwyddau glanhau a deunydd ysgrifennu	*	£116.27

OB	MKM Building Supplies	Eitemau ar gyfer arwyddion allanol YHL	*	£10.70
OB	Snowdonia Fire and Security	Cyflenwi offer diogelwch – arwyddion a standiau	*	£100.32
OB	Snowdonia Fire and Security	Gwasanaethu Larwm Tân ac Offer Ymladd Tân	*	£592.98

192. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod arferol nesaf fydd nos Lun 21 o Chwefror 2022 am 7pm.

193. GWAHARDDIAD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

194. CYFLOGAU STAFF CYNGOR TREF RHUTHUN

Nododd yr aelodau y taliadau cyflog, gan gynnwys treth incwm, Yswiriant Gwladol a chyfraniadau pensiwn staff Cyngor Tref Rhuthun (Ebrill 2021 i Rhagfyr 2021).

PENDERFYNWYD: nodi'r taliadau cyflog fel y'u cyflwynwyd.